# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod Hybrid 24/04/2023 7:00yh

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | David Andrew Parry | William Roger Jones |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Greta Hughes | Hywel James Sinclair Evans |
| Ian Goronwy Williams | Patricia Hope-Whitney | Ann L. Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **<u>Datgan Buddiant Ariannol neu Personol</u>**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 27/03/2023**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Ian Goronwy Williams      Eilio: David Andrew Parry
   **Cofnodion Pwyllgor Brys 12/04/2023**
   Derbyniwyd y cofnodion y gywir.
   Cynnig: William Roger Jones   Eillio: David Andrew Parry
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Greta Hughes a Gwenllian Davenport Hughes gan eu bod ar Ynys Enlli a heb signal i ymuno â'r cyfarfod.

   <u>Materion yn codi o'r cofnodion:</u>
   Gan fod y Clerc yn gorffen yn ei swydd cyn y pwyllgor nesaf cafwyd diweddariad ar rai materion a godwyd yn y pwyllgor diwethaf:
   1. Potiau Blodau
   Mae hysbyseb wedi ei roi ar facebook yn gofyn am wirfoddolwyr i edrych ar ôl y potiau ac ar ôl i'r Clerc ffonio Roger Fisher i ofyn wrtho baentio y potiau sydd angen eu paentio a cael gwared ar potyn sydd wedi malu drost y ffordd i'r Spar mae o wedi cychwyn ar y gwaith. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi paentio rhai ohonynt a'i fod wedi cael gwared a'r pot oedd drost y ffordd i'r Spar. Dywedodd William Roger Jones eu bod yn edrych yn dda ar ôl eu paentio.
   2. Bin wrth ymyl y Llecyn Mwyniant
   Mae un bin wedi cael ei osod wrth ymyl y llecyn mwyniant yn lle y ddau a oedd yno yn wreiddiol.
   3. Craig y Glyn
   Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ddwy waith ers y pwyllgor diwethaf i gael diweddariad ar Craig y Glyn ond nid ydynt yn ateb yr ebyst.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Ffurflen Flynyddol, Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a Cyfrifon 2022-2023**

Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol, Adroddiad Archwiliad Mewnol, â'r Cyfrifon iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Eglurodd y Clerc bod yr Archwilydd Mewnol wedi pasio'r Ffurflen Flynyddol ac felly fod bob dim yn barod i'w anfon ymlaen i Archwilio Cymru ar ôl pasio'r Ffurflen Flynyddol heno a chael llofnod y Cadeirydd arni. Nid oes dyddiad wedi ei dderbyn gan Archwilio Cymru i anfon y papurau iddynt eto felly mi fydd rhaid edrych allan am ebost ganddynt. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi tynnu sylw'r Cyngor Cymuned at ddau bwynt i'w lliniaru sef gwneud Cynllun Hyfforddiant ac Adroddiad Blynyddol felly fe fydd rhaid gwneud y rhain cyn anfon y papurau i Archwilio Cymru. Nid oedd y Clerc yn ymwybodol bod angen gwneud y ddau beth yma erbyn archwiliad 2022-2023 ac ers hynny wedi ymchwilio ychydig iddynt ac am anfon fwy o wybodaeth i'r Cyngor Cymuned ymhellach ymlaen a fydd o help i'r Clerc newydd. Mae'r Cadeirydd am gysylltu hefo Un Llais Cymru i geisio cael eglurhad o sut y maent yn hysbysu'r Cynghorau Cymuned a Thref ynglŷn â deddfau newydd a dyletswyddau newydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc anfon y rhestr Taliadau a Derbyniadau i'r aelodau drwy ebost.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am drefnu bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau a'i anfon i'r Archwilydd Mewnol i'w phasio yn sydyn iawn a dywedodd bod yr adroddiad yn foddhaol iawn.
Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2022-2023.
Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: Hywel James Sinclair Evans

**Cyfraniad i O Ddrws i Ddrws**

Nid yw O Ddrws i Ddrws wedi anfon cais am gyfraniad ariannol i'r Cyngor Cymuned ers 2021 ac felly mae trigolion Llanbedrog yn gorfod talu pris llawn am y gwasnaeth ond os yw'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu arian tuag ato yna fe fydd pris gostyngedig i drigolion lleol felly gofynnodd Greta Hughes i'r Clerc gysylltu hefo O Ddrws i Ddrws i ofyn iddynt wneud cais ffurfiol ac anfon eu mantolen ariannol hefo'r cais fel sy'n ofynnol erbyn pwyllgor mis nesaf.

**5. Ymddiswyddiad y Clerc a'r ffordd ymlaen.**

Derbyniodd y Cadeirydd ymddiswyddiad y Clerc pythefnos yn ôl ac yn dilyn hynny cynhaliwyd pwyllgor brys i drafod y mater. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bechod mawr ei bod yn gadael, mae ei gwaith yn arddechog ac fe fydd colled mawr ar ei hôl ond mae'n deallt ei rhesymau a cytunodd Hywel James Sinclair Evans. Diolchodd Thomas Victor Jones iddi ar ran yr aelodau eraill i gyd am y gwaith y mae hi wedi ei wneud drost y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r hysbyseb swydd wedi cael ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned ac a gofynnodd y Caderiydd i'r Clerc ei roi yn y rhifyn nesaf o Llanw Llŷn. Mae'r aelodau am rannu'r gwaith rhyngddynt nes y bydd Clerc newydd wedi dechrau yn ei swydd ac mae'r Clerc am fynd a'r ffeiliau a'r laptop i'r Cadeirydd ddiwedd yr wythnos.

**6. Protocol damweiniau ar dir neu hefo offer y Cyngor Cymuned.**

Yn dilyn y ddamwain ar y bont fe fydd rhaid penderfynnu ar brotocol i'w ddilyn os y bydd damwain eto felly penderfynwyd creu polisi newydd hefo'r drefn yma i'w ddilyn:

- Manylion o'r ddamwain/digwyddiad i'w anfon i'r Clerc ar bapur,
- Y Clerc i hysbysu'r Cadeirydd a gweddill yr aelodau,
- Trefnu cyfarfod brys os oes angen i drafod pa gamau i'w cymeryd,
- Y Clerc i hysbysu gweithiwr y Cyngor o'r gwaith sydd angen ei wneud.

Y Clerc i anfon y polisi newydd yma i'r aelodau drwy ebost.

7. **Llwybrau**

Gofynwyd i'r Clerc yrru ebost i swyddog llwybr yr arfordir ynglŷn â'r ddau bwynt yma:

1. Mae'r canllaw yn rhydd ar y rhan o'r llwybr sydd yn mynd i fyny at y Ddelw, yn syth ar ôl i'r llwybr sydd yn dod i fyny o'r traeth ymuno hefo'r llwybr sydd yn dod o'r Plas.
2. Mae rhan o'r ffens wedi cael ei golchi i'r môr ar y llwybr yn Carreg y Defaid.

Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc ar drwsio sail y Ddelw. Mae hi wedi rhoi hysbyseb ar facebook ac wedi anfon ebost at bedwar contractwr lleol yn gofyn am amcanbris. Derbyniwyd ymateb gan:

1. Pete Windsor yn dweud ei fod am fynd i fyny i weld beth oedd angen ei wneud a gyrru amcanbris,
2. Paul Dickens yn dweud nad yw yn gwneud mwy o amcanbrisiau ar gyfer 2023 gan fod ei restr waith yn llawn,
3. Simon Brookes yn dweud nad oedd am roi amcanbris oherwydd ei fod yn ormod o waith,
4. John Griffiths yn dweud ei fod am fynd i fyny i weld beth oedd angen ei wneud a mynd a amcanbris i'r Cadeirydd.

8. **Y Fynwent**

Mae Dilwyn Williams wedi cychwyn o'r diwedd ar y gwaith o drwsio wal y fynwent.

<u>Y Fynwent Newydd - Ebost Gamlins</u>

Mae pawb wedi cael cyfle i edrych ar ebost Gamlins ers mis diwethaf ac mae dryswch ynglŷn â'r mesuriadau sydd ar y gweithredoedd sydd felly yn golygu fod y tir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned yn llai na beth a feddylwyd yn wreiddiol. Penderfynwyd bod rhaid mynd i fesur y cae yn iawn ac felly mae'r aelodau am yrru ebost i'w gilydd i drefnu hyn, yna rhoi'r mesuriadau cywir i Gamlins a gofyn wrthyn nhw gysylltu hefo Ieuan Ellis Owen.

9. **<u>Cae chwarae</u>**

Nid oes diweddariad wedi ei dderbyn.

10. **<u>Neuadd y Pentref</u>**

<u>Diweddariad gan yr Is-bwyllgor newydd</u>.

Derbyniwyd diweddariad gan Ian Goronwy Williams. Cynhaliwyd cyfarfod ar y 29ain o Mawrth pryd y penderfynwyd codi'r pris llogi i £15 am yr awr gyntaf ac yna £10 yr awr ar ôl hynny. Maent yn cael trafferth newid y cyfrif banc o Lloyds i Nat West ond yn dal i weithio ar hynny. Mae Gwenllian Davenport Hughes wedi dechrau ar y cyfansoddiad ac wedi sortio anfoneb Snowdonia Fire & Protection. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 26ain o Ebrill. Awgrymodd y Cadeirydd i neilltuo swm ar y gyllideb tuag at y Neuadd y flwyddyn nesaf ac awgrymodd Thomas Victor Jones iddynt wneud cais i'r AHNE am grant.

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc** (5 wythnos i'r dyddiad gorffen) – Pat Humphreys | **£512.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 1 | **£128.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£170.00** |
| **Ashley Hughes** – offer swyddfa | **£19.99** |
| **Roger Fisher** – Gwaith o gwmpas Llanbedrog | **£180.00** |

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| **Ieuan Ellis Owen –** rent tir y fynwent newydd 1.4.22 – 31.3.23 | **£214.00** |
| **Ad-daliad TAW –** 2022-2023 | **£300.61** |

**Ceisiadau Cynllunio**

**C23/0298/38/DT** – Awel y Môr, Ffordd y Glyn, Llanbedrog – estyniadau ac addasiadau.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: William Roger Jones Eilio: David Andrew Parry

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.
Dim.

**Cais am gyfraniad ariannol**

Dim.

Awgrymodd William Roger Jones i newid noson y pwyllgor o fis nesaf ymlaen gan fod gymaint o swn yn dod o'r neuadd ac yn amharu ar y cyfarfod.
Penderfyniad: Cytunodd bawb i gynnal y cyfarfodydd ar y nos Fawrth olaf o bob mis am 7yh o fis Mai ymlaen.
Cynnig: William Roger Jones Eilio: Thomas Victor Jones
Nid yw'r cyfieithydd yn clywed pawb yn iawn ac felly yn cael trafferth cyfieithu'r cyfarfod ac yn awgrymu cael 'multidirectional microphone' ar y bwrdd i bigo'r sain i fyny o bob cyfeiriad ac mae'r Cadeirydd am edrych i fewn i hyn.

Dywedodd y Clerc ei bod wedi gyrru anfoneb i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y cyfraniad tuag at y toiledau ond ddim wedi derbyn yr arian eto.

## Cofnodion Cyfarfod Hybrid 24/04/2023 7:00yh

Gofynnodd Thomas Victor Jones os oes modd tacluso o gwmpas bedd Gwynogfryn Evans cyn yr Eisteddfod, mae o am fynd yno i weld beth sydd angen ei wneud ac adrodd nôl i'r pwyllgor. Awgrymodd Ian Goronwy Williams bod y pentref yn cael ei harddu ar gyfer yr Eisteddfod a bod yna becyn yn dod allan yw wythnos nesaf gan yr Eisteddfod ac yn gofyn iddo gael ei roi ar agenda mis nesaf.

Dywedodd William Roger Joenes ei fod wedi cychwyn mynd o gwmas y pentref i gasglu sbwriel ar ôl derbyn bagiau a ffyn gan Cyngor Gwynedd ac wedi dychryn faint o sbwriel sydd yn cael ei adael. Ategodd Hywel James Sinclair Evans ei fod wedi sylwi fod yna ddipyn o boteli plasig gwag wedi cael eu gadael o gwmpas yr Ysgol felly cytunwyd i godi'r mater yn y cyfarfod nesaf o'r cyfarfod Llywodraethwyr yr Ysgol.

Diolchwyd i'r Clerc unwaith eto am ei gwaith a dymunodd yr aelodau yn dda iddi a diolchodd hithau am eu geiriau caredig.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.50y.h.